

Cyngor Sir Caerfyrddin

Adolygiad Cymunedol

Cyflwyniadau a dderbyniwyd ac Argymhellion Drafft

Argymhelliad	Derbyniwyd gan a chrynodeb o'r ymateb	Argymhelliad Drafft
1	Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth - cytunwyd yn eu cyfarfod ar 13 Mawrth 2023 i gynnig cyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Ar hyn o bryd mae gan y cyngor cymuned hwn Ward Ogleddol a Ward Ddeheuol. Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau'r cyngor cymuned, gan gadw eu haelodaeth o 12 aelod.
2	Cyngor Cymuned Maenordeilo a Salem - cytunwyd yn eu cyfarfod ar 8 Mawrth 2023 eu bod yn fodlon â'r trefniadau presennol. Derbyniwyd e-bost dilynol ar 5 Mai 2023, a oedd yn nodi bod aelodau yn eu cyfarfod ar 12 Ebrill 2023 wedi cytuno i gyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Ar hyn o bryd mae gan y cyngor cymuned hwn Ward Cwmifor a Ward Salem. Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau'r cyngor cymuned, gan gadw eu haelodaeth o 12 aelod.
3	Cyngor Cymuned Llangathen - cytunwyd gan bob aelod i gynnig cyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Ar hyn o bryd mae gan y cyngor cymuned hwn Ward Ogleddol a Ward Ddeheuol. Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau'r cyngor cymuned, gan gadw eu haelodaeth o 8 aelod.
4	Cyngor Tref Caerfyrddin - cytunwyd gan bob aelod eu bod yn fodlon â'r trefniadau presennol.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Tref Caerfyrddin.
5	Cyngor Cymuned Llangyndeyrn - cytunwyd gan aelodau yn eu cyfarfod ar 3 Ebrill 2023 i argymhell y canlynol: Ward Pont-iets - gostyngiad o un aelod, felly o 6 aelod i 5 Ward Carwe - cynnydd o ddau aelod, felly o 3 aelod i 5 Ward Llangyndeyrn - cadw'r tri aelod, felly dim newid. *Bydd hyn yn rhoi cynnydd cyffredinol o un aelod.	Yr argymhelliad drafft yw cynnig: Ward Pont-iets - 5 Aelod Ward Carwe - 5 Aelod Ward Llangyndeyrn – 3 Aelod Cynnydd cyffredinol o un aelod.

6	Y Cyngorydd Tyssul Evans, Cyngorydd Sir Ward Etholiadol Llangyndeyrn. Awgrymodd y Cyngorydd Evans dair senario, ac un ohonynt yw'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Llangyndeyrn. Awgrymodd y Cyngorydd Evans hefyd y dylid symud etholwyr o un ward gymunedol i'r llall, o fewn Cyngor Cymuned Llangyndeyrn ar y sail y byddent o safbwynt daearyddol yn eistedd yn well yn y ward gymunedol a awgrymir.	<p>Yr argymhelliad drafft yw cynnig: Ward Pont-iets - 5 Aelod Ward Carwe - 5 Aelod Ward Llangyndeyrn – 3 Aelod</p> <p>Cynnydd cyffredinol o un aelod.</p> <p>Argymhellwyd hefyd symud y strydoedd canlynol: ●Pontnewydd o Gofrestr BZ (Ward Carwe) i Gofrestr CC (Ward Pont-iets) ●Pont-iets o Gofrestr BZ (Ward Carwe) i Gofrestr CC (Ward Pont-iets) ●Pedair-hewl o Gofrestr CB (Ward Llangyndeyrn) i Gofrestr CC (Ward Pont-iets)</p>
7	Cyngor Tref Llanelli – Cytunwyd gan Aelodau yn eu cyfarfod ar 5 Ebrill 2023 i gynnig rhannu wardiau cymunedol Bigyn a Glanymôr yn wardiau llai h.y. Bigyn 1, Bigyn 2 a Glanymôr 1 a Glanymôr 2. Ni chynigiwyd unrhyw gynigion eraill.	<p>Mae'r cynnig hwn wedi cael ei ystyried; fodd bynnag, rydym o'r farn na fydd rhannu dwy ward gymunedol Bigyn a Glanymôr yn ddwy yn cynnig unrhyw fudd gwirioneddol nac yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at lywodraethu lleol effeithiol a chyfleus, felly nid ydym yn cefnogi'r cynnig hwn wrth symud ymlaen fel argymhelliad drafft.</p>
8	Y Cyngorydd John Jenkins, Cyngorydd Sir Ward Etholiadol Elli - nododd y Cyngorydd Jenkins ei wrthwynebiad i'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llanelli fel yn argymhelliad 7.	
9	Y Cyngorydd Louvain Roberts, Cyngorydd Sir Ward Etholiadol Glanymôr - nododd y Cyngorydd Roberts ei gwrthwynebiad i'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llanelli fel yn argymhelliad 7.	
10	Y Cyngorydd Sean L. Rees, Cyngorydd Sir Ward Etholiadol Glanymôr - nododd y Cyngorydd Rees	

	ei wrthwynebiad i'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llanelli fel yn argymhelliad 7.	
11	Y Cynghorydd Michael D. Cranham, Cynghorydd Sir Ward Etholiadol Bigyn - nododd y Cynghorydd Cranham ei wrthwynebiad i'r cynnig a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Llanelli fel yn argymhelliad 7.	
12	Cyngor Cymuned Llanismel - yn eu cyfarfod cyngor ar 4 Ebrill, cytunodd yr Aelodau nad oeddent am gyfuno'r wardiau ond yn hytrach gadw'r tair ward gymunedol, sef Glanyfferi, Llan-saint a Picton.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanismel.
13	Cyngor Cymuned Gors-las - Cytunodd yr Aelodau yn eu cyfarfod ym mis Mawrth eu bod yn fodlon â'r trefniadau presennol o ran nifer eu haelodau, trefniadau wardio ac enw'r Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Gors-las.
14	Cyngor Cymuned Llanddowror a Llanmilo - Cytunodd yr Aelodau yn eu cyfarfod ym mis Ebrill nad oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau sylweddol na chryf i gyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Ar hyn o bryd mae gan y cyngor cymuned hwn Ward Ogleddol a Ward Ddeheuol. Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Llanddowror a Llanmilo, gan gadw aelodaeth o ddeg aelod.
15	Cyngor Cymuned Cenarth - yn eu cyfarfod ar 6 Ebrill, cytunodd yr Aelodau eu bod yn gwbl wrthwynebus i gyfuno wardiau eu cyngor cymuned ar y sail nad oes gwrthdaro rhwng buddiannau'r wardiau, byddai cyfuno'r wardiau yn arwain at esgeuluso trigolion ac ni fyddai'n dod â'r gymuned yn agosach.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Cenarth.
16	Cyngor Gwledig Llanelli - yn eu cyfarfod ar 19 Ebrill 2023, cyflwynodd Aelodau Pwyllgor Polisi ac Adnoddau'r Cyngor, ar ôl cynnal ymarfer i ragweld etholaeth y dyfodol gan ddefnyddio Cynllun Datblygu Lleol 2018-2033, gynnig i gynyddu aelodaeth ward Bynea o dri i bedwar aelod.	Yr argymhelliad drafft yw cynnig cynnydd o un aelod i Ward Bynea ar Gyngor Gwledig Llanelli, gan gynyddu'r aelodau o dri i bedwar aelod a chynnydd cyffredinol o 21 i 22 aelod.

17	Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn - mae'r Aelodau'n teimlo'n gryf y dylid cadw eu haelodaeth bresennol o 10 aelod.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Tref Castellnewydd Emlyn.
18	Cyngor Cymuned Llangeler - mae'r Aelodau yn dymuno cadw'r sefyllfa bresennol o ran yr aelodaeth gyfredol, trefniadau wardio ac enw eu cyngor cymuned	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Llangeler.
19	Cyngor Cymuned Llanllawddog - mae'r Aelodau yn dymuno cadw'r trefniadau presennol.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Llanllawddog.
20	Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd - mae'r Aelodau yn cytuno i gyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Ar hyn o bryd mae gan y cyngor cymuned hwn Ward Ogleddol a Ward Ddeheuol. Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd, gan gadw aelodaeth o naw aelod.
21	Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych - mae'r Aelodau yn cytuno i gyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Ar hyn o bryd mae gan y cyngor cymuned hwn Ward Ogleddol a Ward Ddeheuol. Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Llanfihangel Aberbythych, gan gadw aelodaeth o un-ar-ddeg aelod.
22	Y Cynghorydd Cary Jones, Cynghorydd Sir Ward Etholiadol Sanclêr a Llansteffan. Dymuna'r Cynghorydd Jones weld Wardiau Cymunedol Llansteffan a Llanybri yn cael eu cadw ar y sail eu bod yn gymunedau gwahanol ac mae'r Cynghorydd Jones o'r farn, pe bai'r wardiau cyngor cymuned yn cael eu cyfuno, fod yna berygl y byddai materion Llanybri yn cael eu diystyru.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri.
23	Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri - yn eu cyfarfod ym mis Ebrill penderfynodd yr Aelodau gadw'r trefniadau presennol a gwrthwynebu unrhyw gynnig i gyfuno wardiau eu cyngor cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Llansteffan a Llanybri.
24	Cyngor Cymuned Llandyfaelog - mae'r Aelodau yn dymuno gweld y trefniadau presennol yn parhau.	Yr argymhelliad drafft yw cadw'r sefyllfa bresennol ar gyfer Cyngor Cymuned Llandyfaelog.

25	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Cil-y-cwm yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Cil-y-cwm, gan gadw eu haelodaeth o 8 aelod.
26	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Cynwyl Gaeo yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Cynwyl Gaeo, gan gadw eu haelodaeth o 10 aelod.
27	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Llanboidy yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Llanboidy, gan gadw eu haelodaeth o 10 aelod.
28	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Llanegwad yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Llanegwad, gan gadw eu haelodaeth o 12 aelod.
29	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Llangynnwr yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Llangynnwr, gan gadw eu haelodaeth o 13 aelod.

30	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Llanybydder yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Llanybydder, gan gadw eu haelodaeth o 12 aelod.
31	Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cynnig bod wardiau Cyngor Cymuned Sanclêr yn cael eu cyfuno. Caiff y cynnig hwn ei gyflwyno gan ei bod o'r farn y byddai'r cyngor cymuned yn dal i weithio'n effeithiol ar gyfer yr holl drigolion ac na fydd cyfuno'r wardiau yn tanseilio cryfder y Cyngor Cymuned.	Yr argymhelliad drafft yw cyfuno wardiau Cyngor Cymuned Sanclêr, gan gadw eu haelodaeth o 13 aelod.